

# Cer i Greu

Pecyn Cymorth Gŵyl Cer i Greu 2018

Ionawr 2018

## Cer amdani: Cer i Greu

Dathliad cenedlaethol o bopeth creadigol yw'r Wyl Cer i Greu ac mae'n cael ei chynnal ar hyd a lled y DU o 17 – 25 Mawrth 2018. Mae'r wyl genedlaethol yn gyfuniad o'r Penwythnos Cer i Greu blaenorol a Gŵyl y Celfyddydau Gwirfoddol – sydd bellach wedi uno i greu un digwyddiad cenedlaethol enfawr. Mae'r Wyl Cer i Greu yn taflu goleuni ar yr holl weithgaredd celfyddydol gwych sy'n cael ei gynnal yn rheolaidd ar hyd a lled y DU ac mae'n annog pobl i roi cynnig ar rywbeth newydd a chreadigol.

Yn ystod yr wyl mae sefydliadau, cymdeithasau a grwpiau cymunedol celfyddydol yn cael eu gwahodd i gynnal digwyddiadau creadigol cyfranogol naill ai am ddim neu ar sail adennill costau. Mae'r wyl yn cael ei chefnogi gan nifer o sefydliadau diwylliannol blaenllaw, gan gynnwys y Celfyddydau Gwirfoddol a'r BBC, ond mae'r rhaglen o weithgareddau yn cael ei chynnal yn bennaf gan grwpiau ar lawr gwlad a sefydliadau celfyddydol o bob lliw a llun ar hyd a lled y wlad.

Mae'r wybodaeth hon yn rhoi cyflwyniad byr i'r Wyl Cer i Greu ac mae'n esbonio sut y gallwch chi fod yn rhan o'r digwyddiad cenedlaethol hwn drwy gynnal eich digwyddiad eich hun, waeth pa mor fach neu fawr ydyw.



Aelodau o Urdd y Cwiltwyr yn fyw ar yr awyr ar BBC Radio Bristol fel rhan o Benwythnos Cer i Greu 2017

### Sut y dechreuodd y cyfan

Fel y rhan fwyaf o syniadau da, fe wnaethom fenthyg y syniad am Wyl y Celfyddydau Gwirfoddol gan rywun arall!

Ers 2007, mae miloedd o bobl ar draws Gwlad Belg wedi bod yn mwynhau'r 'Wythnos o Gelfyddydau Amatur' (neu WAK fel y'i gelwir yno). Mae'r digwyddiad blynyddol hwn yn cysylltu pobl â chyfleoedd i fod yn greadigol yn eu hardal leol ac mae'n dangos i'r llywodraeth a llunwyr polisïau beth yw gwerth gweithgaredd creadigol wedi'i arwain gan y gymuned.

Roedd y Celfyddydau Gwirfoddol yn credu y gallai digwyddiad tebyg i WAK lwyddo yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon hefyd, ac y byddai'n cynnig cyfle i arddangos yr amrediad eang o grwpiau, prosiectau a gwyliau cymunedol sy'n gweithio'n ddifflino ac yn angerddol er mwyn galluogi eraill i elwa o greadigrwydd bob-dydd.

Ar ôl treialu'r syniad yn yr Alban yn 2011, mae'r digwyddiad blynyddol hwn wedi mynd o nerth i nerth ac mae'n datblygu ac yn magu momentwm bob blwyddyn. Gyda channoedd o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal, sy'n cynnwys miloedd o gyfranogwyr bob blwyddyn, mae'r Wyl bellach yn uchafbwynt yn y calendr i nifer o grwpiau creadigol fel ffordd o arddangos eu gweithgareddau a denu aelodau newydd.

Dechreuodd yr ymgyrch Cer i Greu yn 2015 a datblygodd yn gyflym iawn i fod yn neges bwerus ar draws y sector diwylliannol ac yn y cyfryngau darlledu. Datblygodd dathliad blynyddol Cer i Greu o wyl undydd yn 2016 i benwythnos yn 2017, gyda mwy na 650 o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ar hyd a lled y DU, gan gynnwys gweithdy gwneud dodrefn drwy ddull agerblygu, dysgu sgiliau syrcau yng Ngogledd Iwerddon, creu gwaith celf ar lethr mynydd gyda dawnswyr yng Nghymru, gweithdy rhyngweithiol gyda chyfuniad o Shakespeare a dawnys yn Dundee, a thaith sain o orsaf hanesyddol King's Cross yn Llundain i enwi dim ond rhai.

## Yn fwy ac yn well gyda'n gilydd

Roedd y penderfyniad i uno'r ddau ddigwyddiad yn un hawdd ac yn ddatblygiad naturiol a oedd yn cyfuno ymdrechion grŵp gwych o sefydliadau ac angerdd grwpiau a threfnwyr lleol tuag at y ddwy wyl. Mae'r Wyl Cer i Greu newydd yn cael ei chynnal am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2018 a'r gobaith yw mai dyma fydd y dathliad mwyaf eto.

## Pam cymryd rhan yn yr Wyl Cer i Greu?

### Codi eich proffil

Gall y sylw ychwanegol a gewch yn sgil yr Wyl Cer i Greu a'r gefnogaeth gan bartneriaeth yr wyl helpu i godi proffil eich grŵp yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol a dangos eich gweithgareddau i ddarpar gyfranogwyr, gwirfoddolwyr a chynulleidfaoedd newydd.

### Ehangu eich grŵp

Ydych chi'n awyddus i ddenu aelodau newydd? Mae'r Wyl Cer i Greu yn gyfle gwych i gyflwyno eich grŵp neu sefydliad i gynulleidfa newydd a chael mwy o bobl i gyfranogi yn eich gweithgareddau rheolaidd neu'ch rhaglen.

### Recriwtio gwirfoddolwyr newydd

Mae'r Wyl Cer i Greu yn gyfle gwych i arddangos yr hyn rydych yn ei wneud ac i ysbrydoli pobl newydd i gymryd rhan a helpu i gefnogi eich gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn fel gwirfoddolwyr rheolaidd neu achlysurol.

### Dathlu eich cyflawniadau

Gwyddom eich bod yn gweithio'n galed drwy gydol y flwyddyn, y tu ôl i'r llenni ac yn gyhoeddus, ac mae cymryd rhan yn yr Wyl Cer i Greu yn gyfle i ddod at eich gilydd a dathlu eich holl gyflawniadau.

### Teimlo'n rhan o rywbeth enfawr

Mae gwybod eich bod yn rhan o ddigwyddiad cenedlaethol sy'n dathlu creadigrwydd yn ein hatgoffa ein bod yn rhan o rywbeth mawr a phwysig iawn. Y mwyaf o grwpiau ac unigolion sy'n cymryd rhan yn yr Wyl Cer i Greu, y mwyaf o sylw a roddir i'r neges y gallwn ei hanfon am bwysigrwydd creadigrwydd o ddydd i ddydd. Felly beth am ei gwneud yn wyl i'w chofio!

## Beth allech chi ei wneud yn ystod yr Wyl Cer i Greu?

Mae digonedd o ddewisiadau creadigol ar gael. Gallai hyn gynnwys popeth o herw-arddio, pobi a threftadaeth i weithgareddau creadigol mwy cyffredin, megis gwau, ffotograffiaeth, dawnys, drama, cerddoriaeth. Mae'r rhestr yn ddiidwedd!

Beth bynnag yw eich celf neu'ch crefft, mae croeso i chi fod yn rhan o'r Wyl Cer i Greu. Os nad ydych yn siŵr pa fath o ddigwyddiad y gallech chi ei gynnal, efallai y bydd y syniadau hyn yn eich ysbrydoli.

## Ymarferion agored

Os yw eich grŵp drama, côr, cerddorfa, grŵp dawnsio neu fand yn cwrdd i ymarfer bob wythnos, beth am agor eich drysau yn ystod yr Ŵyl Cer i Greu a gwahodd pobl i mewn? Mae ymarfer agored yn ffordd hamddenol heb bwysau i bobl weld beth rydych yn ei wneud a chael eu hysbrydoli i ymuno â chi o bosibl.

## Perfformiad arbennig

Manteisiwch ar y cyhoeddusrwydd ychwanegol yn sgil yr Ŵyl Cer i Greu drwy gynnal un sioe arbennig a chanfod ffyrdd o gynnwys ymwelwyr newydd er mwyn dangos y pleser o gymryd rhan iddynt.

## Digwyddiad Dewch i Ganu/Chwarae

Weithiau dim ond ar ôl i chi roi cynnig ar rywbeth y byddwch yn sylweddoli faint o hwyl ydyw. Beth am roi cyfle i bobl rannu eich mwynhad drwy gynnal sesiwn flasu, diwrnod agored neu weithdy 'rhoi cynnig arni' a fydd yn eu cyflwyno'n raddol i'ch gweithgaredd.

## Bom Crefftau

Gallwch fywiogi eich cymuned gyda ffrwydrad o liwiau a chreadigrwydd. Ymunwch â gwneuthurwyr eraill yn eich ardal i arddangos eich creadigaethau mewn lleoliad cyhoeddus yn ystod yr Ŵyl Cer i Greu, er enghraifft eich stryd fawr leol, iard yr ysgol, parc cyhoeddus neu ardd gymunedol.

Mae'r rhai sydd wedi cyfrannu yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael llawer o hwyl, maent wedi cael sylw yn y wasg leol a chenedlaethol ac wedi cwrdd â phobl newydd ar hyd y daith. Felly, os ydych yn gwau, yn pwytho, yn cwiltio, yn brodio, yn gwehyddu neu unrhyw fath arall o grefft, beth am gymryd rhan? [Lawrlwythwch y pecyn cymorth Bom Crefftau](#) i gael gwybodaeth fwy manwl am sut i wneud hyn!

## Cynnal gweithdy

Os yw eich grŵp celf neu grefft gweledol wedi cronni set o sgiliau, boed hynny'n beintio olew neu drefnu blodau, peidiwch â chadw hynny i chi eich hun. Gallwch gynnal gweithdy arbennig ar thema benodol yn ystod yr Ŵyl Cer i Greu er mwyn rhannu eich doniau ag eraill.

## Woollen Woods

Ers mis Mai 2015, mae mwy na 20 o arddangosfeydd crefft wedi bwrw gwreiddiau mewn nifer goetiroedd ac wedi agor i'r cyhoedd fel rhan o Woollen Woods. Mae pob un wedi deillio o bartneriaeth rhwng grŵp crefftau lleol a choetir, gan amrywio o goetiroedd cymunedol a gerddi cyhoeddus i eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn creu ffordd wahanol i bobl ymddiddori mewn gwau a natur, [lawrlwythwch becyn cymorth Woollen Woods](#) i gael canllaw ymarferol a chynghor defnyddiol i'ch helpu i greu eich coedwig grefftus eich hun.

## Cydweithio

Mae cymryd rhan yn yr Ŵyl Cer i Greu yn gyfle gwych i weithio gyda grwpiau a sefydliadau eraill. Gallai hyn arwain at berthynas sy'n para drwy'r flwyddyn ac mae'n ffordd o gyrraedd pobl newydd na fydddech o bosibl yn dod i gysylltiad â nhw fel arall. Cysylltwch â grwpiau a sefydliadau celfyddydol lleol eraill yn eich ardal i weld sut y gallech ddod at eich gilydd i gydweithio.

Gallech: Drefnu digwyddiad arddangos i dathlu'r digwyddiad celfyddydol yn eich pentref/tref/dinas. Gallai hyn gynnwys stondinau gwybodaeth a rhaglen fywiog o weithdai a pherfformiadau wedi'u harwain gan grwpiau gwahanol, sy'n gwahodd pobl i gael gwybod mwy a chymryd rhan.

## Cyflwyno eich creadigrwydd mewn lleoliad newydd

Beth am gysylltu â lleoliad nad ydych wedi'i ddefnyddio erioed o'r blaen, er enghraifft llyfrgell, canolfan gymunedol neu ysgol i gynnal eich digwyddiad ar gyfer yr Ŵyl Cer i Greu? Mae lleoliadau cyhoeddus megis amgueddfeydd a chanolfannau siopa yn arbennig o addas ar gyfer cynnal gweithdy galw heibio, arddangosfa Bom Crefftau neu berfformiadau Fflashmob, oherwydd gallant ddarparu cynulleidfa barod a phobl sy'n cerdded heibio i gymryd rhan yn eich gweithgaredd.

Mae gweithio gyda lleoliad newydd yn ffordd wych o ymestyn allan o'ch man cyfarfod arferol a dod i gysylltiad â phobl newydd. Mae'n bosibl y gallai'r lleoliad eich helpu i hysbysebu eich digwyddiad, a gallech elwa ar gyhoeddusrwydd ychwanegol.

### Rhywbeth ar y gweill yn barod?

Os ydych eisoes yn cynnal digwyddiad ar neu rhwng 17 - 25 Mawrth 2018, beth am ei gynnwys fel rhan o'r Wyl Cer i Greu a gwahodd eraill i ymuno â chi? Rhestrwch eich digwyddiad ar [wefan yr Wyl Cer i Greu](#) er mwyn cael rhywfaint o gyhoeddusrwydd ychwanegol ac edrychwch ar ein [hadnoddau](#) ar gael cyngor ar sut i roi cyhoeddusrwydd lleol i'ch digwyddiad a chael mynediad i ddeunyddiau marchnata am ddim (gan gynnwys logo a thempledi posteri Cer i Greu).

### Hyrwyddo eich digwyddiad

Gallwch ychwanegu eich digwyddiadau at fap yr Wyl Cer i Greu drwy fynd i'r wefan a nodi'r holl fanylion angenrheidiol. Gofynnir i chi gyflwyno'r holl fanylion pwysig am eich digwyddiad, gyflwyno gwybodaeth hygyrchedd a chytuno hefyd i Delerau ac Amodau'r Digwyddiad er mwyn sicrhau bod eich digwyddiad yn addas ar gyfer yr Wyl. Ar ôl i'ch digwyddiad gael ei gymeradwyo, bydd yn ymddangos ar ein map a gallwch rannu'r ddolen gyda'ch rhwydwaith.

### Rhagor o gyhoeddusrwydd

Meddylwch am y lleoedd yr ydych yn cael gwybod am ddigwyddiadau lleol fel arfer, a sut rydych yn clywed am bethau diddorol sy'n digwydd. Os ydych chi wedi'ch cyffroi gan eich cynlluniau, mae'n debygol y byddant yn cyffroi eraill hefyd.

Mae Evenbrite yn llwyfan ar-lein gwych, am ddim ar gyfer cynllunio a hyrwyddo eich digwyddiadau ac olrhain cofrestradau.

Mae arddangos posteri o'ch digwyddiad Gŵyl Cer i Greu o amgylch yr ardal leol yn ffordd wych o roi gwybod i bobl am y digwyddiad. [Gallwch lawrlwytho ein templedi posteri](#) (A3 ac A4) Cer i Greu yma a'u personoli gyda'ch manylion chi. Dylai'r manylion gynnwys:

- dyddiad/au ac amser/oedd eich digwyddiad
- lleoliad eich digwyddiad
- gwybodaeth gyswllt neu archebu
- eich gwefan a/neu fanylion y cyfryngau cymdeithasol (Facebook/Twitter ac yn y blaen)

Er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'ch digwyddiad a rhannu eich stori yn fwy eang, mae'n werth cysylltu â phapurau newydd lleol, gorsafoedd radio, gorsafoedd teledu a blogiau lleol.

Ceisiwch ganfod pa newyddiadurwr sydd fwyaf tebygol o ddangos diddordeb yn eich digwyddiad; chwiliwch am y rhai sydd wedi ysgrifennu am ddigwyddiadau lleol tebyg yn y gorffennol, neu chwiliwch am y rhai â theitl swydd megis Golygydd y Celfyddydau ac Adloniant neu Olygydd Diwylliannol.

Yn y lle cyntaf, dylech anfon copi o'ch datganiad i'r wasg drwy e-bost a nodyn sy'n esbonio eich digwyddiad yn yr Wyl Cer i Greu, yna eu ffonio ymhen ychydig ddyddiau os nad ydych wedi clywed ganddynt.

Defnyddiwch y [Templed Datganiad](#) i'r Wasg er mwyn rhoi gwybod i newyddiadurwyr am eich digwyddiad a'i fod yn rhan o wyl genedlaethol.

Bydd rhaglenni teledu a radio lleol ar draws y BBC yn annog creadigrwydd ac yn rhoi sylw i rai o'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal fel rhan o Cer i Greu. Gwnewch ymholiadau i ganfod beth sy'n cael ei gynllunio yma.



## Cyfryngau cymdeithasol

I gael gwybodaeth yn y cyfnod cyn yr ŵyl, gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn Cer i Greu ar [Twitter](#) a [Facebook](#).

Cofiwch ddefnyddio'r hashnodau #CeriGreu a #GetCreative cyn ac yn ystod yr ŵyl er mwyn helpu i roi sylw i'r digwyddiad enfawr hwn.

## Adnoddau a thempledi am ddim

Mae gan y Celfyddydau Gwirfoddol set [gynhwysfawr o adnoddau a thempledi](#) am ddim i helpu grwpiau a sefydliadau i gynllunio digwyddiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sut i ysgrifennu cais llwyddiannus am gyllid
- Aseidiadau risg ar gyfer trefnwyr digwyddiadau – canllaw i ddechreuwyr
- Yswiriant ar gyfer grwpiau celfyddydau gwirfoddol
- Rhestr wirio – anabled a mynediad

### Gwerthuso a dysgu

Bydd y tîm Cer i Greu yn anfon arolwg at bob trefnydd digwyddiadau iddynt ei gwblhau ar ôl yr ŵyl er mwyn canfod eu barn ar lwyddiant y digwyddiad a faint o bobl a gymerodd ran.

Byddwn hefyd yn rhannu templed Arolwg Cyfranogwyr a doler ar-lein gyda chi er mwyn i chi a ninnau gael adborth gan y bobl a fu'n cymryd rhan. Mae hyn yn helpu pob un ohonom i adrodd yr hanes am yr hyn a ddigwyddodd, pwy sy'n cymryd rhan (a phwy sydd ddim) a pha wahaniaeth mae wedi'i wneud. Dylech gadw hyn mewn cof wrth i chi gynllunio eich digwyddiad i weld a allai gwirfoddolwr fod yn gyfrifol am gynnal arolwg o'ch cyfranogwyr.

## Rhagor o wybodaeth / Manylion cyswllt

Ar gyfer unrhyw gwestiynau neu i gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost i [cerigreu@celf.cymru](mailto:cerigreu@celf.cymru)

